

THOMAS, OWEN (1812-1891), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd ac awdur.

**Enw:** Owen Thomas  
**Dyddiad geni:** 1812  
**Dyddiad marw:** 1891  
**Priod:** Ellen Thomas (née Roberts)  
**Rhiant:** Mary Thomas  
**Rhiant:** Owen Thomas  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd ac awdur  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** William Llewelyn Evans

Ganwyd yng Nghaerdybi, 16 Rhagfyr 1812, mab Owen a Mary Thomas, a brawd [John Thomas](#) (1821 - 1892) a Josiah Thomas. Saer maen oedd y tad, ac ar ôl symud y teulu i fyw i Fangor 1827, dilynodd yntau yr un alwedigaeth. Dechreuodd bregethu yn 1834, a daeth ar unwaith yn amlwg fel pregethwr. Aeth i Goleg y Bala, 1838, ac oddi yno i Brifysgol Edinburgh. Yn 1844 derbyniodd alwad yn weinidog eglwys Penmount, Pwllheli; ordeiniwyd ym Medi 1844. Symudodd i'r Drefnewydd i ofalaeth Saesneg, yn 1846, ac yn niwedd 1851 derbyniodd alwad i fod yn weinidog eglwys Jewin Crescent, Llundain. Ar 24 Ionawr 1860 priododd Ellen (a fu farw 1867), merch ieuengaf y [Parch. William Roberts](#), Amlwch (1784 - 1864). Yn 1865 symudodd i Lerpwl, yn gyntaf i Nether field Road, ac yn 1871 i eglwys Princes Road. Bu'n llywydd cymdeithasfa'r Gogledd yn 1863 a 1882, ac yn llywydd y gymanfa gyffredinol yn 1868 a 1888. Yr oedd yn rheng flaenaf pregethwyr mawr Cymru, yn awdurdod ar hanes a datblygiad pregethu Cymru, ac yn bencampwr mewn areithyddiaeth. Bu'n efrydydd egniol ar hyd ei oes, a gwnaeth gyfraniad ardderchog i lenyddiaeth grefyddol Cymru. Yr oedd yn ddiwinydd praff ac yn esboniwr galluog. Y mae ei lyfrgell (yng Ngholeg y Bala) yn brawf pendant o ehangder cylch ei astudiaeth, a'i weithiau ef ei hun yn fynegiant o allu, llafur, a dawn arbennig. Bu farw 2 Awst 1891, a chladdwyd ym mynwent Anfield, Lerpwl. Cyhoeddodd *Cofiant y Parch. John Jones, Talsarn*, dwy gyfrol (Wrecsam, 1874) (yn cynnwys cipdrem ar hanes diwinyddiaeth a phregethu Cymru); *Cofiant y Parch. Henry Rees*, dwy gyfrol (Wrecsam, 1890); *Cyfieithiad o draethawd y Parch. Thomas Watson, ar Sancteiddhad*, a phigion o waith amryw awduron (Llanrwst, 1839); *Esboniad ar y Testament Newydd* (1862-85), yn cynnwys cyfieithiad esboniad Dr. Kitto gyda nodiadau ychwanegol - cyhoeddwyd ar wahân yr esboniadau ar yr Hebraeid, 1889, a'r Galatiaid, 1892; erthyglau cyson i'r *Traethodydd* o'i gychwyniad - bu'n gyd-olygydd y cylchgrawn am gyfnod gyda [Roger Edwards](#); erthyglau i'r *Gwyddoniadur*, ac amryw gyhoeddiadau eraill. Y mae *Cofiant* iddo gan [J.J. Roberts](#) ('lolo Caernarfon').

Heblaw Owen a [John Thomas](#), yr oedd trydydd brawd:

**JOSIAH THOMAS (1830-1905) ysgrifennydd Cymdeithas Genhadol y Methodistiaid Calфинаidd**

Ganwyd ym Mangor 7 Awst 1830. Aeth i Goleg y Bala ac i Edinburgh, lle y graddiodd yn 1857. Merch i [John Hughes](#) (1796 - 1860) oedd ei wraig. Wedi bod yn fugail Jerusalem (Bethesda, Arfon) bu'n cadw ysgol ym Mangor (1862-6) ond yn 1866 fe'i

penodwyd yn ysgrifennydd Cymdeithas Genhadol y Methodistiaid Calфинаidd, a daliodd y swydd hyd 1900. Yn 1896, bu'n llywydd cymdeithasfa'r Gogledd. Bu farw 21 Mai 1905.

## Awdur

Y Parchedig William Llewelyn Evans, (1894 - 1958)

## Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Owen Thomas](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [10650966](#)

Wikidata: [Q18880154](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

